

Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor sut, yn ei barn hi, y gallai fod angen i'w dull economaidd presennol newid rhwng y tymor canolig a'r tymor hwy o ganlyniad i'r pandemig a rhoi awgrym cynnar o'r hyn yw "ailadeiladu'n well" ym marn y Gweinidog.

Ymateb: Derbyn

Yn sgil argyfwng Covid-19, ac wrth i gyfnod pontio'r broses o ymadael â'r UE ddod i ben, mae'n rhaid i ni ystyried pa fath o economi sydd ei hangen ar Gymru. Mae gennym gyfle yn awr i wneud hynny, gan ymateb i'r amgylchiadau newydd, yr amgylchedd gwaith newydd a dyfodol byd gwaith. Mae'n gyfle i fod yn feiddgar, gan fod yn ofalus hefyd na roddir gormod o bwyslais ar ddulliau newydd neu sydd heb gael eu defnyddio o'r blaen.

Yn sylfaenol, bydd ein hadferiad yn cael ei arwain gan werthoedd, a'r egwyddorion arweiniol fydd cyfiawnder cymdeithasol, gwaith teg a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Yn sicr, mae Covid eisoes yn gwneud i ni ailystyried llawer o feysydd polisi a'n gwaith. Ond, mae hefyd yn wir bod llawer o'r heriau tymor hir yr oeddem yn gwybod amdanynt cyn y feirws yn cyflymu oherwydd Covid:

- yr argyfwng hinsawdd a'r angen i ddatgarboneiddio diwydiannau ar unwaith;
- yr economi anghyfartal a'r prinder swyddi sy'n talu'n dda;
- yr angen i gael cyfleoedd economaidd y tu hwnt i ardaloedd trefol sy'n ehangu;
- y prinder sgiliau mewn gwlad sy'n dal i fyw â chreithiau dwfn dad-ddiwydiannu.

Mae gan y Llywodraeth hon hanes o ddiwallu anghenion Cymru mewn ffyrdd blaengar ac arloesol, ac rydym yn awyddus i barhau i wneud hynny. Nid dim ond atebion tymor byr, ond gwaith sy'n ymateb i heriau ehangach fel mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd – gwaith sydd â'i wreiddiau yng Nghymru – ac adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau unigryw rydym yn eu hwynebu.

Drwy ein gwaith yn datblygu'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a'r camau penodol rydym wedi'u cymryd ers hynny, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i newid gogwydd polisïau economaidd tuag at rai o'r heriau tymor hwy hynny. Mae'r Contract Economaidd yn dangos ac yn sicrhau ymrwymiad gan fusnesau i symud tuag at ddyfodol carbon isel; i gynyddu lefel y sgiliau yn yr economi; ac i symud oddi wrth y stigma sy'n gysylltiedig ag economi â chyflogau isel a sgiliau isel drwy sicrhau mwy o Waith Teg.

Mae pedwar cynnig integredig a allai sicrhau'r pwyslais angenrheidiol a dull gweithredu traws-lywodraethol i ysgogi adferiad sy'n ailgodi'n gryfach. Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud yn y meysydd hyn a thu hwnt, gyda'r cyfle i adeiladu ar hyn fel sylfaen ar gyfer adferiad. Gofynnir am farn gan bartneriaid cymdeithasol ac yn ehangach i ddatblygu syniadau a chamau gweithredu ynghylch beth sydd ei angen er mwyn helpu i sbarduno'r adferiad priodol.

Dyma'r pedwar cynnig:

1. Rhoi pwyslais ar adferiad sy'n seiliedig ar **LEOEDD**, a fydd yn cynnig cyfle i fwrw ymlaen â gwaith wedi'i gydlynw â'r partneriaid perthnasol, sy'n seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o gryfderau ac anghenion ardal. Yn benodol, mae amryw o fanteision posib i **adferiad economaidd Gwyrdd sy'n seiliedig ar dai** a allai greu swyddi lleol, cyfrannu at ddatgarboneiddio, adeiladu ar yr economi sylfaenol, darparu sgiliau, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, a darparu cartrefi gwell.
2. Adferiad sy'n seiliedig ar **BOBL**, sydd angen ailddylunio ac ailflaenoriaethu darpariaethau prentisiaeth, addysg bellach a phrifysgolion yn sgil y diweithdra, y dangyflogaeth a'r cynnydd mewn anweithgarwch economaidd a ddisgwylir ar raddfa fawr yng Nghymru ac ar draws y DU dros y 12 mis nesaf.
3. Adferiad **GWYRDD a THEG** sy'n llywio Cymru oddi wrth yr argyfwng eithriadol hwn i greu economi fwy cadarn sy'n seiliedig ar y diwydiannau y mae eu hangen arnom ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol. Bydd mabwysiadu agwedd sero-net – o ran carbon a gwastraff – fel nod ar gyfer adferiad economaidd yn rhoi arwydd clir i fusnesau o'r cyfeiriad rydym am ei ddilyn.
4. Adferiad **DIGIDOL** sy'n sefydlu Cymru fel lle sy'n arloesi'n ddigidol. Mae cyfleoedd go iawn i ryddhau pobl i gyflawni swyddogaethau sydd ond yn gallu cael eu cyflawni gan bobl; gan leihau anghydraddoldebau digidol a chyflymu meysydd sy'n arloesi a thrawsnewid digidol.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am yr anghenion o ran cyllido cymorth busnes i Gymru yn y dyfodol yng ngoleuni'r ffaith bod y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi'i estyn tan fis Hydref 2020.

Ymateb: Derbyn

Yn amlwg, bydd llawer o fusnesau'n wynebu anawsterau parhaus ar ôl mis Hydref 2020, felly ni ddylai'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ddod i ben yn ddisymwth. Bydd angen cymorth parhaus ar lefel Llywodraeth y DU drwy ymestyn yn rhannol y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws, nes gwanwyn 2021 o leiaf, i helpu'r rheini lle na fydd y galw'n dychwelyd yn sylweddol er mwyn gallu diogelu busnesau a swyddi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i gefnogi'r adferiad gyda'r swm cymharol fach o arian sydd ar ôl yn y Gronfa Cadernid Economaidd, ond ni fydd modd i Lywodraeth Cymru gynnig cymorth parhaus ar y raddfa angenrheidiol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei ffordd o feddwl, a'i thrafodaethau â Llywodraeth y DU, mewn perthynas a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol ar y rôl y gallai'r gronfa newydd ei chwarae wrth fenthycu cymorth ychwanegol i helpu Cymru adfer o effeithiau'r pandemig, a'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr amserlenni ar gyfer cyhoeddiadau yn ymwneud â'r gronfa.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn fodlon cyflawni'r argymhelliad hwn a rhoi diweddariad ysgrifenedig ar y gwaith parhaus rydym yn ei wneud yng Nghymru ar fuddsoddi rhanbarthol. Bydd y diweddariad hwnnw'n adlewyrchu canlyniad ein hymgyngoriad a'r dirwedd economaidd-gymdeithasol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Ni ddisgwylir cyhoeddiadau ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU tan yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn yr hydref. Mae'n annhebygol y bydd gennym fanylion penodol am gynlluniau Llywodraeth y DU tan hynny. Soniwyd am ymgynghoriad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond nid oes unrhyw wybodaeth bellach ar gael ynghylch hynny ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU ar fanylion y Gronfa. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n frwd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i swyddogion ynghylch ein cynigion, ac mae'n ymddangos bod hynny wedi sefydlu dealltwriaeth glir o'r sefyllfa.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud na fydd Cymru yn cael dim llai o gyllid na'r lefelau presennol o gyllid yr UE (Maniffesto'r Blaid Geidwadol 2019; Cyllideb Mawrth 2020), ond ni chafwyd unrhyw gadarnhad ynghylch sut bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i Lywodraeth Cymru. Os na wneir cyhoeddiadau ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin tan yr hydref, mae risg sylweddol na fydd trefniadau olynol ar waith yn gynnwys y flwyddyn nesaf, sy'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd cyllid newydd ar gael cyn blwyddyn ariannol 2021/2022.

Ni all Llywodraeth Cymru aros nes bydd ganddi fanylion y Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig i gynllunio ei threfniadau pontio pan ddaw Rhaglenni presennol yr UE i ben, ac i ddatblygu ei model cyllid rhanbarthol at y dyfodol. Mae hyn yn bwysig dros ben wrth i ni gynllunio ar gyfer adferiad economaidd Cymru mewn ymateb i COVID-19. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad helaeth (rhwng 28 Chwefror a 10 Mehefin) ar ein trefniadau olynol ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ac, at ei gilydd, wedi sicrhau consensws ymysg partneriaid a rhanddeiliaid ar ein ffordd ymlaen arfaethedig.

Roedd yr ymgynghoriad yn egluro ein safbwynt ar ôl cydweithio'n agos â rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol, sydd wedi bod yn rhan allweddol o'n Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol, o dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AC, a'r is-grwpiau technegol ategol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i ddarparu adolygiad annibynnol a thryloyw o lywodraethu aml-lefel yng Nghymru ac i wneud argymhellion priodol, sy'n seiliedig ar arferion gorau rhyngwladol, i gefnogi pwyslais rhanbarthol datblygu economaidd yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a Ffyniant i Bawb.

Wrth gwrs, cynhaliwyd ein hymgyngghoriad yn ystod cyfnod eithriadol oherwydd effaith COVID-19. Mae dyfodol buddsoddi rhanbarthol, fel llawer o feysydd eraill sy'n effeithio ar ein busnesau, ein pobl a'n heconomi, yn cael ei adolygu gyda rhanddeiliaid yn sgil COVID-19, ac roeddem wedi cynnal trafodaeth cyfarfod llawn gyda'n Grŵp Llywio Allanol yn ddiweddar er mwyn cyfrannu at y gwaith hwn. Mae'r ymatebion i'n hymgyngghoriad yn cael eu dadansoddi'n annibynnol ar hyn o bryd, a bydd y canfyddiadau'n helpu Gweinidogion i bennu'r cyfeiriad at y dyfodol a'r camau nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni rhaglen fuddsoddi olynol.

Mae'n hynod bwysig yn awr bod Llywodraeth Cymru a'r DU, ynghyd â'n rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru, yn dangos ymrwymiad parhaus a chryf i gydweithio ar gynllun ar gyfer adferiad economaidd ar draws y DU. Bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws y DU hefyd yn flaenoriaeth allweddol yn sgil effaith COVID-19. Mae ein hymateb ar draws y DU i COVID-19 yn dangos y gallwn ni weithio ar y cyd ac yn adeiladol â'n gilydd, gan ddatblygu dull partneriaeth sy'n sicrhau a hefyd yn llwyr gydnabod meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor fanylion unrhyw sylwadau y mae wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch pwysigrwydd cyllid ar gyfer rhaglenni cymorth busnes, prentisiaethau a sgiliau, i gynorthwyo Cymru i adfer o COVID-19.

Ymateb: Derbyn

Yn ystod trafodaethau â Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'n gyson bod angen cymorth cynhwysfawr i fusnesau, a bydd yn parhau i ddadlau dros gael cymorth parhaus fwy penodol yn ystod y camau ailgychwyn ac adfer.

Ysgrifennodd Gweinidogion at Ganghellor y Trysorlys cyn ei ddiweddariad economaidd yn ystod yr haf i ddisgrifio'r heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru.

Nid yw'r farchnad lafur yng Nghymru o ran y prif ddangosyddion cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch wedi dirywio'n sylweddol eto. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod cyflogaeth yn ddangosydd llusgo ond mae hefyd yn adlewyrchu effeithiolrwydd cynllun cadw swyddi Llywodraeth y DU a'r cynllun cymorth incwm hunangyflogedig o ran inswleiddio'r farchnad lafur o'r hyn a fyddai wedi bod yn golledion trychinebus mewn cyflogaeth a chynnydd mewn diweithdra ac anweithgarwch.

Mae'r ddau yn sail i nifer sylweddol o swyddi yng Nghymru.

Yr ydym yn croesawu cyhoeddiad y Canghellor¹, ac wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU i ystyried cynllun cymhorthdal swyddi sy'n debyg i'n cynllun llwyddiannus, twf swyddi Cymru, yng Nghymru. Ers lansio twf swyddi Cymru yn 2012, fel ymateb i'r dirwasgiad 2008/9, mae'r cynllun wedi helpu dros 19,000 o bobl ifanc i gael gwaith, gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu ymateb ar unwaith i gefnogi pobl i gael gwaith neu hunangyflogaeth, tra'n sicrhau parhad a dilyniant dysgwyr yn y farchnad lafur yn ystod y pandemig hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio ar gyfer y twf tebygol yn y galw am gymorth cyflogaeth a sgiliau ar draws rhaglenni cyflogadwyedd cregyn a chymunedol. Mae'r rhaglenni hynny'n cynnwys ReAct, Access, Twf Swyddi Cymru, Hyffordddeaethau, Cymunedau am Waith a Chymunedau ar Gyfer Gwaith Mwy, a Cymru'n Gweithio fel cwrs canolog o gyngor ac arweiniad.

Bydd cynnig Llywodraeth Cymru ar sgiliau a chyflogadwyedd yn hanfodol i gefnogi gweithwyr sydd wedi'u dadleoli i ddychwelyd i'r gwaith, cefnogi cyflogwyr i recriwtio, ac ysgogi cyflogi pobl ifanc a phrentisiaid, a dechrau busnes newydd.

Byddwn yn ystyried y manylion a'r amseru ar gyfer gweithredu cynigion newydd y Canghellor, er mwyn sicrhau cydraddoldeb i unigolion ac i fusnesau yng Nghymru sy'n cydnabod cyfrifoldeb datganoledig am addysg a sgiliau. I gyfateb i raddfa'r ymrwymiad gwleidyddol ar lefel y DU, mae cyllid i Gymru yn bwysig er mwyn i ni allu darparu prentisiaethau, mae Twf Swyddi Cymru a Hyffordddeaethau yn rhan o gyfres o ddarpariaeth sy'n sail i'n ' hysymwymiad Covid '.²

Mae mynd i'r afael â diweithdra yn gofyn am ddull gweithredu ar y cyd â Llywodraeth y DU, ac rydym yn parhau i alw ar yr adran gwaith a phensiynau a'r DFE i weithio gyda ni i lunio ymateb cydgysylltiedig yng Nghymru. I'r perwyl hwn, gofynnwn i JCP yng Nghymru gael mwy o hyblygrwydd ac ymreolaeth i allu ymateb yn gyflym i faterion penodol yn ymwneud â marchnad lafur sy'n berthnasol i Gymru. Fodd bynnag, mae gwasanaethau DWP/JCP yn darparu un rhan yn unig o'r tirlun cyflogadwyedd a sgiliau yng Nghymru, sef rhwydwaith enfawr o gyflawni Cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, wedi'i ariannu a'i gomisiynu drwy Lywodraeth Cymru, Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac ystod o ffynonellau ariannu ar lefel ranbarthol, lleol a'r trydydd sector.

Mae gennym hanes da o weithio mewn partneriaeth â'r adran gwaith a phensiynau, ac rydym wedi helpu 17,900 o bobl i gael gwaith drwy ein rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol. Rydym yn darparu allgymorth yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed er mwyn i bobl ifanc ac oedolion gael mynediad at ddarpariaeth gyflogadwyedd i gefnogi eu taith i gyflogaeth.

1

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/898422/A_Plan_for_Jobs_Print_.pdf

² Covid – ymrwymiad - i unrhyw un dros 16 oed yng Nghymru i gael cyngor a chymorth i ddod o hyd i waith, dilyn hunangyflogaeth neu ganfod lle mewn addysg neu hyfforddiant.

Mae ReAct yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth ailgyflogaeth i weithwyr sydd mewn perygl o gael eu diswyddo.

Yr ydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y gall ac y bydd Cymru'n ymadfer ar ôl y pandemig hwn. Cyn Covid-19, roeddem wedi dathlu llwyddiant o ran gwella ein cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru, gan ddangos bod ein hymyriadau yn gweithio. Fodd bynnag, mae lle hefyd i gymryd stoc i adolygu ac ail-lunio ein polisïau a'n hymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol. Nid yn unig yr ydym am gael ein hunain yn ôl o'r pandemig hwn, ond rydym am adeiladu'n ôl yn well drwy greu economi genedlaethol sy'n gweld cyflogaeth, cyfoeth a ffyniant yn cael ei wasgaru'n fwy cyfartal ar draws Cymru – bydd y sector addysg ôl-16 yn hanfodol i hyn.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei meddylfryd ynghylch polisi rhanbarthol yng ngoleuni'r pandemig a'r cymorth fydd yn angenrheidiol i wahanol ranbarthau; yn benodol pa newidiadau y gallai fod eu hangen i'r strwythurau presennol o gymorth rhanbarthol neu flaenoriaethau economaidd rhanbarthol.

Ymateb: Derbyn

Mae ein Prif Swyddogion Rhanbarthol yn gweithio gyda rhanddeiliaid ym mhob un o'n rhanbarthau i sefydlu blaenoriaethau clir a chyffredin ar gyfer datblygu economaidd, a byddant yn parhau i wneud hynny. Y pwyslais yn y tymor byr yw'r adferiad yn dilyn y pandemig Covid-19, a bydd y pwyslais yn y tymor canolig i'r tymor hir yn cael ei gadarnhau wrth i ganlyniad y trafodaethau â'r UE ar y dirwedd fasnachu yn y dyfodol ddod yn gliriach.

Bydd y blaenoriaethau rhanbarthol a sefydlir – ymysg pethau eraill – yn llywio buddsoddi rhanbarthol yn unol â'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol newydd, a ddefnyddir i weinyddu cyllid a ddaw yn lle'r hyn a ddarperir gan yr UE ar hyn o bryd. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ar y fframwaith hwn yn ddiweddar, o dan arweiniad y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd.

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn amodi mai 'datblygu economaidd' yw un o'r meysydd y bydd Gweinidogion yn gallu sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig ar eu cyfer, er mwyn i awdurdodau lleol ym mhob un o'n rhanbarthau allu cydweithio o fewn cyd-destun y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol ac yn fwy cyffredinol. Rydym yn gweithio i sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig erbyn mis Ebrill 2021.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cymorth i'r diwydiant twristiaeth.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi cael cyfarfodydd rheolaidd â Gweinidogion Twristiaeth y Gweinyddiaethau Datganoledig, sy'n cynnwys Nigel Huddleston, Gweinidog Twristiaeth y DU. Mae hyn wedi parhau i ddigwydd yn ystod yr argyfwng presennol o ran iechyd y cyhoedd, ond mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn amlach – bob pythefnos, neu'n amlach, yn ôl yr angen. Yn y cyfarfodydd hyn, rydym wedi trafod materion fel y canlynol:

- Cymorth parhaus i'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a digwyddiadau
- Llacio'r cyfyngiadau symud – sy'n cynnwys llu o faterion fel canllawiau, siartrau ymwelwyr, Safon 'Good to Go', 2m neu 1m ac ati.

Rydym yn dadlau'n frwd dros Gymru, ac yn dadlau dros symiau canlyniadol Barnett lle bo hynny'n briodol. Rydym yn bwriadu parhau i bwyso am adnoddau pellach i Gymru oherwydd, er gwaethaf y mesurau niferus, mae angen cymorth ychwanegol arnom yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar bod y cyfnod ffyrlo wedi cael ei ymestyn, ond bydd yn hollbwysig bod y sector hwn – twristiaeth, digwyddiadau a lletygarwch – yn cael rhagor o gymorth, a byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i wneud hyn yn flaenoriaeth economaidd. Mae hyn yn allweddol, yn enwedig dros gyfnod y gaeaf, a byddwn yn ceisio sicrhau unrhyw gyllid canlyniadol i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sôn am yr angen am adnoddau ychwanegol mewn llythyr at Ganghellor y DU. Mae swyddogion Croeso Cymru hefyd yn cael cyfarfodydd â swyddogion cyfatebol y DU mewn sawl fforwm – gan gynnwys Gweithgor Economi Ymwelwyr y DU, a gynhelir yn wythnosol o dan gadeiryddiaeth Gweinidog Twristiaeth y DU, a grŵp Ymateb i Argyfyngau yn y Diwydiant Twristiaeth, sy'n grŵp ar draws y DU – i ddadlau dros Gymru ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys yr angen am gyllid cynhwysfawr a pharhaus i'r sector.

Rydym yn parhau i ddadlau'n gryf dros Dwristiaeth, gan ystyried barn y diwydiant. I'r perwyl hwnnw, a thu hwnt i wahanol ryngweithio dyddiol, rydym wedi cael cyfarfodydd rheolaidd â'r sector ar hyd a lled Cymru i gael adborth gan y Fforymau Rhanbarthol drwy Gadeiryddion y Fforymau a drwy gyrff cynrychioladol, fel Cynghrair Twristiaeth Cymru ac UK Hospitality Cymru.

Caiff y safbwyntiau hyn eu rhannu â Gweinidogion ar lefel Cymru a lefel y DU, a drwy'r cynrychiolwyr Cymru ar Gyngor Diwydiant Twristiaeth y DU a Visit Britain. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyfarfodydd wythnosol â chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth drwy Dasglu Twristiaeth Covid19. Mae'r tasglu'n cynnwys cadeiryddion y pedwar fforwm twristiaeth rhanbarthol, Cynghrair Twristiaeth Cymru, CLILC, UK Hospitality a chynrychiolwyr Cymru ar Fwrdd Visit Britain a Chyngor Diwydiant Twristiaeth y DU.

Mae pob cyfarfod yn gyfle i gael diweddariad dwy ffordd, ac i gynllunio ffordd gyfrifol i'r sector ddychwelyd ac adnewyddu ei hun. Bydd y grŵp hwn yn parhau cyhyd ag y bydd angen, ac mae'n helpu i lywio adolygiadau 21 diwrnod Prif Weinidog Cymru yn ogystal â'n trafodaethau â Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cymorth i'r diwydiant dur.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ynghylch y diwydiant dur a'r angen am gymorth brys i gwmnïau dur yng Nghymru. Rwyf wedi codi hyn yn aml yn ei gyfarfodydd rheolaidd â Gweinidogion BEIS ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae Gweinidogion hefyd wedi sôn yn rheolaidd am bwysigrwydd cymorth i ddiwydiannau strategol, gan gynnwys dur, yn y Grŵp Ymateb i faterion yr Economi a Busnes (EBRIG) sydd o dan arweiniad y DU, ac sy'n adrodd yn ôl i'r cyfarfod Covid-19 a gynhelir yn ddyddiol o dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog y DU.

Ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at Ganghellor y Trysorlys ar 3 Mehefin, yn amlinellu'r angen brys i Lywodraeth y DU gefnogi cwmnïau dur yng Nghymru. Ysgrifennais i Alok Sharma, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn yr un modd ar 2 Mehefin.

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ar 2 Gorffennaf ei bod wedi rhoi benthychiad brys i Celsa Steel (UK), ac mae hynny'n newyddion da iawn. Buom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU drwy gydol y broses hon, mewn ymdrech ar y cyd i ddarparu cymorth y mae dirfawr ei angen ar y cwmni. Ochr yn ochr â benthychiad Llywodraeth y DU, rydym ni'n rhoi benthychiad o £2.9m yn ogystal â £690,000 o gyllid grant drwy ein Cronfa Cadernid Economaidd.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, ac yn pwysleisio pa mor bwysig yw rhoi'r cymorth angenrheidiol ar waith ar frys ar gyfer y sector ehangach.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cymorth i'r diwydiant hedfan.

Ymateb: Derbyn

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi parhau i ofyn i Lywodraeth y DU am gymorth penodol ar gyfer busnesau hedfanaeth ac awyrofod yng Nghymru a'r DU.

Rwyf wedi codi'r mater yn aml yn ei gyfarfodydd rheolaidd â Gweinidogion BEIS ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae wedi pwysleisio bod angen i'r diwydiant gael cymorth uniongyrchol ar frys gan Lywodraeth y DU, gan alw'n benodol am roi ystyriaeth i ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi ar gyfer y sector a chynyddu'r cymorth sydd ar gael drwy'r Cynllun Benthychiadau Tarfu i Fusnesau Mawr yn sgil y Coronafeirws, ac ar gyfer ymchwil a datblygu.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am ei disgwyliadau o ran cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer sectorau sy'n ffurfio cyfran fwy o economi Cymru na rhannau eraill o'r DU, gan gynnwys sut y gallai cyllid sy'n fwy na chyllid canlyniadol Barnett weithredu.

Ymateb: Derbyn

Mae'r ffocws presennol ar sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y lefel gywir o arian ychwanegol o'r gwahanol fesurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

Byddwn bob amser yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n cael y lefel gywir o gyllid i gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn iawn. Mae hynny'n arbennig o bwysig ar hyn o bryd, pan fo'r gwasanaethau hynny'n wynebu heriau mor anodd

Bydd nifer o'r cyhoeddiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU yn cael eu hariannu gan gyllidebau presennol Adrannau, ac ni fydd hynny'n arwain at symiau canlyniadol ychwanegol o ran fformiwla Barnett ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig.

Yn ôl y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ar ôl edrych ar y niferoedd, mae'n debygol mai dim ond £12.5 miliwn o gyllid ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael yn sgil cyhoeddiadau yn Niweddariad Economaidd yr Haf gan Lywodraeth y DU. Mae'r £500m a gyhoeddwyd gan y Canghellor yn cynnwys pethau a oedd eisoes wedi cael eu cyhoeddi, a phethau rydym eisoes wedi gorfod talu amdanynt.

Roedd cyllideb atodol gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn ystyried £1.9bn o gyllid ychwanegol. Disgwylir cynnydd pellach, ond ni fydd unrhyw symiau canlyniadol ychwanegol yn cael eu cadarnhau tan Amcangyfrifon Atodol y DU yn nes ymlaen yn y flwyddyn, a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn ein hail gyllideb atodol.

Mae ansicrwydd o hyd ynghylch yr union swm a gawn yn sgil y pecyn cymorth llawn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r ansicrwydd hwn yn arwain at heriau go iawn o ran gallu ymateb i'r argyfwng.

Er ein bod yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i leihau'r gyfradd TAW ar y sector lletygarwch, sydd wedi dioddef yn fawr yn ystod y cyfnod eithriadol hwn, dylai Llywodraeth y DU hefyd roi cynlluniau sectoraidd ar waith i warchod swyddi mewn sectorau sy'n dal ar gau neu'n dal i ddioddef llawer yn sgil mesurau Covid-19, fel twristiaeth, awyrofod, modurrol a dur.

Mae angen eglurder arnom ar frys ynghylch cyllid a hyblygrwydd cyllidebol yn y flwyddyn gyfredol, er mwyn i ni allu ymateb i'r argyfwng mewn ffordd sy'n cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus a'r economi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, a sut mae'n bwriadu sicrhau proses bontio lyfn wrth i ni adael yr UE.

Argymhelliad 10. Pan fydd y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a chyson i bob busnes ynghylch cadw pellter cymdeithasol. Dylid rhoi'r canllawiau hyn i fusnesau mor fuan ymlaen llaw â phosibl er mwyn iddynt gael amser i baratoi.

Ymateb: Derbyn

Hyd yma rydym wedi cyhoeddi **25 dogfen ganllawiau ar gyfer y gweithle** – gyda rhagor i ddilyn:

<https://llyw.cymru/busnesau-a-chyflogwyr-coronafeirws>

Nod y canllawiau yw helpu busnesau a chyflogwyr, ac roeddent yn cynnwys ystyriaethau ymarferol ynghylch sut gallent weithredu. Mae'r canllawiau'n seiliedig ar bum egwyddor diogelwch yn y gweithle:

- Gofal: Ein hiechyd a'n llesiant sy'n dod gyntaf
- Cydymffurfio: Rhaid ufuddhau i'r cyfreithiau sy'n ein cadw ni'n ddiogel
- Cynnwys: Mae pob un ohonom yn gyfrifol am arferion gwaith diogel
- Addasu: Bydd angen i bob un ohonom newid y ffordd rydym yn gweithio
- Cyfathrebu: Rhaid i ni i gyd ddeall beth i'w wneud

Roeddem wedi ymgynghori â busnesau ac undebau llafur yng Nghymru i sicrhau bod ein dull gweithredu yn gymesur ac yn deg i fusnesau a gweithwyr. Byddwch yn nodi i ni hefyd gyhoeddi canllawiau manwl i helpu'r sectorau gweithgynhyrchu, twristiaeth a manwerthu i ddychwelyd yn ddiogel, ymysg pethau eraill, a bydd rhagor o ganllawiau allweddol i sectorau'n cael eu cyhoeddi dros yr wythnosau nesaf.

Bydd y canllawiau hyn yn berthnasol i bob gweithle – nid ydynt yn cymryd lle'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cysylltiedig, na chanllawiau sy'n benodol i ddiwydiannau, ac ni ddylid eu defnyddio yn lle cyngor cyfreithiol y dylai cyflogwyr a gweithwyr ystyried ei gael lle bo angen.

Rydym yn cydweithio â'n partneriaid yng Nghymru, yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roeddem hefyd wedi ymgynghori â busnesau ac undebau llafur yng Nghymru i sicrhau bod ein dull gweithredu yn gymesur ac yn deg i fusnesau a gweithwyr.

Rydym yn arbennig o ddiolchgar am gefnogaeth y TUC ar y materion hyn. Yn yr holl waith yma, rhaid i ni gofio gweithio tuag at y dyfodol glân, teg a ffyniannus rydym am ei weld, yn hytrach na'n gorffennol.

Mae gan gyflogwyr a busnesau ddyletswyddau cyfreithiol o hyd i sicrhau nad yw'r penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud er mwyn ymateb i COVID-19 yn gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Ni ddylent wneud rhagdybiaethau rhagfarnllyd a defnyddio'r rheini i roi gweithwyr o dan anfantais, na'u rhwystro rhag cael mynediad at y farchnad swyddi.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar y newidiadau a wnaed i'r canllawiau ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes annomestig a sicrhau nad ydynt yn cosbi busnesau cyfreithlon nac yn cynyddu'r llwyth gwaith ar awdurdodau lleol.

Ymateb: Gwrthod

Cafodd y canllawiau eu diwygio yn dilyn trafodaethau ag awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai'r grantiau gael eu talu i berchnogion ail gartrefi sydd ond yn gosod eu heiddo o bryd i'w gilydd.

Fodd bynnag, mae'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r cynllun grant yn rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol wrth benderfynu a ydynt am ddyfarnu'r grant i fusnes penodol, ac ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt gan berchnogion busnes cyn dyfarnu grant. Mae'r disgresiwn hwn yn ymestyn i benderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch dyfarnu grantiau i bob busnes yn y categorïau cymwys, gan gynnwys llety hunanarlwyo. Lluniwyd y canllawiau drwy ymgynghori â gweithgor o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Yr awdurdod lleol unigol fydd yn dal i benderfynu a ddylid rhoi rhyddhad neu gymorth grant ai peidio.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dadansoddiad o'r bylchau yn y cymorth i fusnesau gyda'r Pwyllgor.

Ymateb: Derbyn

Mae Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru, y grant Cychwyn Busnes a'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi cael eu cynllunio i lenwi cynifer o fylchau â phosib yn narpariaeth cymorth Llywodraeth y DU, gyda'r adnoddau sydd ar gael ac o fewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod wedi gwneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi busnesau a swyddi ledled Cymru gyda'r pecyn cymorth mwyaf hael sydd ar gael yn unrhyw le yn y DU.

Bydd bwch sylweddol iawn o ran cymorth os na fydd Llywodraeth y DU yn ymestyn ei Chynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y tu hwnt i fis Hydref 2020 ar gyfer rhannau o'r economi na fyddant yn elwa o gynnydd sylweddol yn y galw o'r pwynt hwnnw ymlaen.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru agor y gwiriwr cymhwysedd ar gyfer cam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd, agor y cam hwn ar gyfer ceisiadau a dechrau gwneud taliadau cyn gynted â phosibl.

Ymateb: Derbyn

Roedd y gwiriwr cymhwysedd ar gyfer cam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd wedi agor ar 29 Mehefin, ac mae ceisiadau'n cael eu cyflwyno ers 29 Mehefin 2020.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr o unrhyw ddangosyddion y dylai Llywodraeth y DU, neu gyrff eraill, fod yn adrodd arnynt ar lefel Cymru a sut y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio'r broses adfer.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ystadegau ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a'r cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, a oedd yn cynnwys data ar gyfer pob un o wledydd y DU. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr am raddfa'r effaith economaidd yng Nghymru. Wrth i Lywodraeth y DU gyhoeddi unrhyw ddiweddariadau data yn y dyfodol sy'n ymwneud â chymorth i fusnesau, byddem yn ei hannog i gynnwys dadansoddiad ar gyfer Cymru pan fydd modd.

Mae data sy'n benodol i Gymru yn arbennig o bwysig oherwydd pwysigrwydd cymharol rhai sectorau i economi Cymru, yn ogystal â nodweddion gwahanol poblogaeth Cymru wrth gymharu â'r DU yn gyffredinol. Byddai cael mynediad at fwy o'r data hyn yn helpu swyddogion i gynllunio camau adfer a fyddai wedi'u teilwra i anghenion Economi Cymru.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data am effeithiau'r pandemig COVID-19 ar sectorau ac ar ranbarthau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

Ymateb: Derbyn

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi parhau i gyhoeddi data'n rheolaidd drwy StatsCymru ynghylch busnes, yr economi a'r farchnad lafur ar lefel sectoraidd a rhanbarthol, wrth i'r data ddod ar gael.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar ei Harolwg o Effaith y Coronafeirws ar Fusnesau (BICS), er mwyn monitro'r effaith ar fusnesau yn ôl rhanbarth a sector. Cyhoeddir data bob pythefnos gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac mae'n ffynhonnell werthfawr er mwyn deall effaith y pandemig yng Nghymru.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data ar y nifer sy'n manteisio ar ei mesurau cymorth economaidd yn rheolaidd yn ôl sector ac ardal awdurdod lleol, ynghyd ag effaith y mesurau hynny. Dylai'r data gynnwys cymorth a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru a chymorth ardrethi busnes a ddarperir gan awdurdodau lleol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi [trosolwg wythnosol o ddata ynghylch cymorth yng nghyfnod y coronafeirws](#). Mae'n cynnwys ystadegau am y cymorth a roddir i fusnesau, gan gynnwys grantiau ardrethi busnes COVID-19, Cynllun Benthyciadau Busnes COVID-19 Cymru gan Fanc Datblygu Cymru, y Gronfa Cadernid Economaidd a'r Gronfa Busnesau Mawr.

Cafodd data am geisiadau i'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) – wedi'u dadansoddi yn ôl sector, maint y busnes a rhanbarth – eu cyhoeddi mewn llythyr gan

Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru at Aelodau'r Senedd ac
Aelodau Seneddol Cymru ar 28 Mai.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r set ddata lawn am fusnesau sydd wedi cael cymorth o'r Gronfa Cadernid Economaidd (gan gynnwys enw busnes, cyfeiriad, sector, maint y busnes a manylion y grant neu'r benthyciad a roddwyd).

Ymateb: Derbyn.*

Bydd enwau pawb sy'n cael cymorth drwy'r Gronfa Cadernid Ewropeaidd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn rhagofyniad ar y cam ymgeisio. Yn sgil y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cyhoeddir y manylion canlynol*;

- Enw'r Busnes
- Y Cynllun / Maint – Micro, BBaCh neu Fawr
- Yr Awdurdod Lleol – nid y cyfeiriad llawn, gan fod rhai masnachwyr unigol yn defnyddio eu cyfeiriad cartref
- Swm y cyllid.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru roi adroddiad rheolaidd am effeithiau'r pandemig ar wahanol sectorau economaidd, ar ranbarthau Cymru ac ar wahanol rannau o gymdeithas (e.e. ar bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol).

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amrywiaeth o ystadegau economaidd yn rheolaidd yn ôl sector, rhanbarth a nodweddion gwarchodedig, ac maen nhw ar gael drwy wefan ystadegau Llywodraeth Cymru.

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad ar [nodweddion gwarchodedig gwahanol grwpiau o bobl sydd mewn swyddi sydd fwyaf tebygol o ddioddef yn sgil COVID-19](#), gan gynnwys gweithwyr hanfodol (allweddol), gweithwyr mewn diwydiannau sydd wedi gorfod cau, a gweithwyr mewn swyddi sydd â risg uchel o COVID-19.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data am gyflymder yr Awdurdodau Lleol o ran dosbarthu grantiau cymorth busnes.

Ymateb: Gwrthod oherwydd y sefyllfa bresennol, fel y nodir isod.

Roedd y Gweinidog Cyllid yn cyhoeddi data ar lefel awdurdodau lleol fel rhan o gyfarfodydd briffio rheolaidd ynghylch y cymorth mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau. Daeth y cynllun Grant Ardrethi Annomestig i ben ar 30 Mehefin 2020. Hyd yma, mae £748m wedi cael ei ddarfarnu i gefnogi 62k o safleoedd busnes. Mae lefel y gweithgarwch yn isel erbyn hyn, ac yn canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o achosion, gan gau'r penderfyniadau hynny lle mae'r gwerth ardrethol yn cael ei adolygu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiol, er enghraifft.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor o'r dyddiad y mae'n disgwyl cyhoeddi ei chanllawiau diogelwch mewn perthynas â dychwelyd i weithio, a darparu manylion am sut y bydd y canllawiau hyn yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â chanllawiau'r DU a gyhoeddwyd ar 11 Mai.

Ymateb: Derbyn

Fel y soniwyd yn argymhelliad 10, mae nifer o ddogfennau canllawiau [Diogelu Cymru – Yn y Gwaith](#) wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r dogfennau hyn yn adeiladu ar y gofynion yn y [Canllawiau Statudol](#) a'r [canllawiau atodol](#) ynghylch cymryd pob cam rhesymol i gadw pellter corfforol yn y gweithle, a'u nod yw helpu pobl i weithio'n ddiogel yn ystod y pandemig Coronafeirws. Bydd canllawiau Diogelu – Yn y Gwaith yn cael eu diweddarau'n gyson i adlewyrchu newidiadau rheoleiddiol a chynghor newydd.

Roeddem wedi seilio'r canllawiau ar rai o adrannau ymarferol defnyddiol y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, ac wedi'u haddasu i adlewyrchu cyfreithiau a pholisïau cymdeithasol Cymru, gan weithio ar y cyd â'n partneriaid cymdeithasol ac ystod eang o randdeiliaid ac arbenigwyr ar sectorau.

Argymhelliad 21. Wrth gyhoeddi ei chanllawiau diogelwch i'r sectorau mewn perthynas â dychwelyd i weithio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried blaenoriaethu nid yn unig y sectorau a fydd yn agor gyntaf ond hefyd y sectorau hynny lle bydd angen y gwaith mwyaf. Er enghraifft, efallai mai twristiaeth fydd un o'r sectorau olaf i ailagor, ond bydd angen i rai busnesau twristiaeth weithredu newidiadau strwythurol.

Ymateb: Gwrthod

Mae'r ffordd rydym yn datblygu ac yn cyhoeddi'r canllawiau yn adlewyrchu'r newidiadau rheoleiddiol. Mae hyn yn sicrhau bod busnesau a all agor yn gallu gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chyfreithlon. Ond, rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws pob sector i ddatblygu canllawiau ychwanegol, gan gynnwys y rheini sy'n gorfod aros ar gau ar hyn o bryd.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y bydd yn monitro capasiti awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau/canllawiau diogelwch wrth i fusnesau ailagor.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae nifer o sefydliadau'n gyfrifol am orfodi iechyd a diogelwch, gan ddibynnu ar y math o weithle a/neu safle. Rydym wedi ehangu aelodaeth Cyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol oherwydd y pandemig Coronafeirws. Mae Awdurdodau Iechyd a Lleol yn cael eu cynrychioli, yn ogystal â phartneriaid ar draws y sector

cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ynghyd ag undebau llafur, gan sicrhau ein bod yn cydweithio ar ymateb Cymru i'r pandemig.

Argymhelliad 23. Os nad yw'r Gweinidog wedi gwneud hynny eisoes, dylai drafod gyda Llywodraeth y DU sut y gellir defnyddio'r cyllid ychwanegol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i orfodi mesurau diogelwch yn y gweithle yng Nghymru. Os cynhaliwyd y trafodaethau hyn eisoes, dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am y canlyniad.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi ei sicrhau y bydd yn gallu rheoli effaith canllawiau newydd.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei ffordd o feddwl o ran y canllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ar bob math o drafnidiaeth gyhoeddus. Yn benodol, sut y bydd y canllawiau a fydd yn gymwys yng Nghymru yn cael eu llunio, a chan bwy, a sut y byddant yn berthnasol i ganllawiau Llywodraeth y DU, gan gynnwys canllawiau'r Adran Drafnidiaeth y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn y Cyfarfod Llawn. Pryd fydd y canllawiau hyn ar waith yng Nghymru?

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddwyd ein canllawiau ar [Ailddechrau trafnidiaeth gyhoeddus: canllawiau i weithredwyr](#) ar 22 Mai. Rydym yn parhau i ddilyn y wyddoniaeth, ac os bydd y wyddoniaeth yn newid ac os bydd angen i ni newid y ffordd rydym yn gweithredu, byddwn yn cymryd y camau hynny yn unol â'r dystiolaeth a ddaw i'r amlwg.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r pwyllgor o'i hasesiad o'r bysiau a'r trenau sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, a nodi a yw hyn yn ddigonol i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol gan gadw pellter cymdeithasol, a rhoi manylion unrhyw gamau a gymerir i sicrhau bod digon o gapasiti.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd â CPT Cymru, sy'n cynrychioli gweithredwyr bysiau yng Nghymru, er mwyn deall tueddiadau o ran y galw, lefelau gwasanaeth, a'r heriau gweithredol wrth gyfateb y ddwy elfen hynny gan sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol ar yr un pryd. Mae gweithredwyr yn casglu gwybodaeth fanwl am y galw a gwybodaeth weithredol i lywio trefniadau yn ystod y cyfnod cyllido presennol, a sut gellid darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Rydym hefyd yn treialu dulliau arloesol, gan gynnwys gwasanaeth trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw drwy wasanaeth fflecsi Trafnidiaeth Cymru.

O ran trenau, mae Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu amllder gwasanaethau i 85% o'r amserlen o'r mis yma ymlaen, gan ganolbwyntio ar gysylltedd rhwng dinasoedd yn ystod y cyfnodau prysuraf. Dylai'r ffigur 85% fod yn ddigon ar gyfer y cynnydd yn nifer y cerbydau yn ystod y cyfnodau prysuraf, a sicrhau bod staff ar gael pe bai angen i rai staff hunanynysu oherwydd Covid-19. Bydd y dull yma o weithredu yn cynnig cadernid, ac yn sicrhau bod gan wasanaethau gymaint o gapasiti â phosib, gan gadw at y gofynion cadw pellter cymdeithasol ar yr un pryd.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am sail yr amcangyfrif o £250 miliwn y flwyddyn o gyllid ychwanegol y cyfeiriodd y Gweinidog ato, gan gynnwys sut y cyrhaeddwyd y ffigur hwn a'r rhaniad yn ôl modd. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn falch o gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y sicheir y cyllid ychwanegol hwn.

Ymateb: Derbyn

Byddai cynnal y lefelau presennol o wasanaethau bysiau yn parhau i gostio tua £23m i Lywodraeth Cymru yn y chwarter nesaf, ac yn darparu tua 30% o'r gwasanaethau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd – felly tua 3-5% o'r capasiti arferol. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddarparu unrhyw gapasiti ychwanegol, a byddai'n dwysau'r cyfyngiadau presennol o ran capasiti, sydd eisoes yn golygu bod pobl yn cael eu gadael mewn safleoedd bws. Mae data'n awgrymu bod y ffigurau cyffredinol yng Nghymru yn cyfateb i tua 15% o'r teithwyr arferol, felly ni fyddai capasiti ar gyfer teithiau ychwanegol.

Byddai cynyddu gwasanaethau mor agos â phosib at 100% cyn gynted â phosib (sy'n debygol o fod yn 80-85% i ddechrau wrth i yrwyr bregus warchod eu hunain) yn costio tua £50-60m y chwarter (felly £80 – £120m ychwanegol y flwyddyn) i gyd, a byddai'n sicrhau tua 2-3 gwaith yn fwy o gapasiti na'r lefelau gwasanaeth presennol (gan gadw pellter cymdeithasol o 2m).

O dan y Fasnachfaint Rheilffyrdd, mae'n costio tua £350m y flwyddyn i weithredu Rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Fel arfer, mae refeniw teithwyr yn talu am tua hanner y gost yma, ac mae'r refeniw hwnnw wedi gostwng dros 95% erbyn hyn o ganlyniad i Covid-19. Felly, byddai angen £175–£180m ychwanegol (gan ddibynnu ar refeniw) i gynnal y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau rheilffyrdd ar Rwydwaith Cymru a'r Gororau.

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor o'r sefyllfa ddiweddaraf am y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a pha gynlluniau wrth gefn sy'n cael eu trafod os nad oes digon o le yn yr amserlen ddeddfwriaethol ddiwygiedig i gyflwyno'r Bil.

Ymateb: Derbyn

Ysgrifennais at y Llywydd ar 15 Gorffennaf i roi gwybod iddi fy mod yn tynnu'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 26.79.

Mae'r heriau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu o ran cyflawni ei rhaglen ddeddfwriaethol oherwydd newid Covid-19 a'r UE, a waethygydd gan effaith y pandemig ar y diwydiant bysiau, yn golygu bod y Prif Weinidog a minnau wedi cytuno i dynnu'r Bil yn ôl.

Mae diwygio bysiau'n dal yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru ac yr wyf yn rhoi ystyriaeth frys i sut y byddwn yn bwrw ymlaen â hynny, boed drwy Fil neu ddull arall.

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar effaith ail-broffilio'r benthyciad i faes awyr Caerdydd, gan gynnwys pa rai o'r gwelliannau a gafodd eu clustnodi yn wreiddiol i'w hariannu a fydd yn cael eu gohirio a sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn lle hynny. Dymuna'r Pwyllgor gael gwybod hefyd a yw'n debygol y bydd angen unrhyw gyllid tymor byr arall i gynorthwyo'r maes awyr.

Ymateb: Derbyn

Gan mai Llywodraeth Cymru yw unig gyfranddaliwr Maes Awyr Caerdydd, rydym wedi cytuno i roi cyllid i'r maes awyr drwy amrywio ei gyfleuster benthyciad masnachol presennol y cytunwyd arno, i gefnogi'r maes awyr wrth i'w weithrediadau leihau ac i sicrhau bod modd iddo barhau i fasnachu. Nid yw'r arian hwn yn newydd nac yn ychwanegol, ac mae'n rhan o'r cyfleuster benthyciad masnachol gwerth £21.2m y cytunwyd arno yn 2019.

Mae'r cyllid i gefnogi'r busnes yn y tymor byr wedi cael ei gynnig i'r maes awyr ar gyfradd llog uwch na'r benthyciad gwreiddiol, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chymorth gwladwriaethol. Rydym yn cydnabod mai dim ond ateb tymor byr yw'r cyllid benthyciad a roddir i'r maes awyr, a bod angen dod o hyd i ateb tymor hwy wrth i COVID-19 gael effaith sylweddol ar y diwydiant hedfan yn gyffredinol.

Cafodd cytundeb benthyciad 2019 ei ddylunio i fod yn hyblyg ei natur, ac mae'n caniatáu i Faes Awyr Caerdydd ddefnyddio'r arian ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau i sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau i fuddsoddi mewn elfennau fel adeiladau a seilwaith y maes awyr, datblygiad ei lwybrau hedfan, a gwaith uwchraddio angenrheidiol er mwyn cynnal cydymffurfedd rheoleiddiol â safonau newydd o ran sgrinio bagiau a diogelwch ar y ffin. Er bod hyn yn dal yn wir, mae'r amgylchiadau yn amlwg wedi newid yn sgil y pandemig, a bydd unrhyw fuddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn cael ei gyfyngu i waith uwchraddio angenrheidiol i gynnal cydymffurfedd rheoleiddiol, gan gynnwys seilwaith ailgychwyn hanfodol er mwyn gweithredu'r terminal wrth i ni barhau i lacio'r cyfyngiadau symud yn y wlad. Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bennu'r gofynion rheoleiddiol gorfodol ar gyfer diogelwch meysydd awyr, sy'n cynnwys gatiâu eBasbort.

Yn ychwanegol at y benthyciad gwreiddiol a oedd werth £21.2m, roedd cyfran ychwanegol o £6.8m yn cael ei hystyried. Mae COVID-19 wedi arwain at newidiadau eithriadol i fusnesau yn y diwydiant Hedfan, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd, sydd wedi golygu bod angen i'r maes awyr ailystyried ei holl strategaeth ariannu. Ar lefel elfennol, mae hynny'n golygu bod y syniad o gyfran ychwanegol gwerth £6.8m wedi dyddio, ac mae angen rhoi ystyriaeth ehangach i hynny. Mae swyddogion yn

gweithio gyda'r Maes Awyr i ddeall beth fydd y gofynion cyllido newydd tebygol, a'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau hynny. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wariant rheoleiddiol angenrheidiol.

Argymhelliad 29. Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor y meini prawf a roddwyd i'r awdurdodau lleol i ddatblygu cynigion i sicrhau bod awdurdodau'n defnyddio dull tebyg wrth ddatblygu cynigion.

Ymateb: Derbyn

Mae'r llythyr a anfonwyd i Awdurdodau Lleol wedi'i amgáu.

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y nifer sydd wedi derbyn y gwahoddiad gan gynnwys faint o geisiadau a wnaed, a'u lleoliad daearyddol.

Ymateb: Derbyn

Cawsom gyfanswm o 209 o gynigion ar gyfer mesurau gan yr holl awdurdodau lleol, mewn ymateb i'r gwahoddiad i ddatgan diddordeb. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi darparu'r [datganiad ysgrifenedig](#) canlynol. Mae rhestr lawn o'r cynlluniau llwyddiannus fesul awdurdod lleol hefyd i'w gweld yn <https://llyw.cymru/mesurau-trafnidiaeth-cynaliadwy-cynghorau-lleol-dyrannu-cyllid> Ceir dadansoddiad rhanbarthol isod; Gogledd Cymru: 71 bid
De-ddwyrain Cymru: 106 bid
De orllewin Cymru: 22 bid
Canolbarth Cymru: 10 bid

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am sut y bydd cynigion yn cael eu hasesu, gan gynnwys y meini prawf.

Ymateb: Derbyn

Eglurwyd wrth awdurdodau lleol eu bod, ymhlith y mesurau y cynigiwyd arian iddynt ar eu cyfer, eu hangen i roi blaenoriaeth i gyflawni cynlluniau y gellid eu dechrau ar unwaith ac a'u cyflwyno o fewn tri neu bedwar mis, ac a oedd yn debygol o gael yr effaith fwyaf yn eu hardaloedd awdurdod lleol, yn ogystal â chynlluniau a dargedwyd yn arbennig i alluogi mynediad diogel i gerddwyr a beicwyr i ysgolion.

Nid oedd cynlluniau a oedd wedi'u cyflwyno o'r blaen i gael arian o dan ein mecanweithiau grant arferol wedi'u cynnwys yn y cyllid. Yr oedd hefyd nifer o gynlluniau a oedd yn gofyn am arian refeniw, a oedd y tu allan i gwmpas y cais ac ni chefnogwyd yr elfennau refeniw.

Argymhelliad 32. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr i ddarganfod faint o brentisiaid sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli eu swyddi, a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd.

Ymateb: Derbyn

Ar ddechrau'r cyfnod o gyfyngiadau symud, roeddem wedi rhoi gofynion ar waith i ddarparwyr dan gontract gyflwyno gwybodaeth am nifer y prentisiaid sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, a'r nifer sydd wedi colli eu swydd. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei darparu bob pythefnos ar wahân i'r system casglu data a sefydlwyd ar gyfer darparwyr (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru). Er na fyddwn ni'n gallu sicrhau ansawdd i'r un lefel ag ystadegau swyddogol, bydd y data hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr am sut mae cyflogwyr yn ymateb i'r argyfwng hwn. Byddwn yn cyhoeddi'r data hyn fel gwybodaeth reoli yn yr adran 'ystadegau ac ymchwil' ar wefan Llywodraeth Cymru, gan amlinellu tueddiadau perthnasol o ran cyflogwyr. Pan ddaw'r cynllun ffyrlo i ben, byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth reoli am brentisiaid sydd wedi colli eu swydd.

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru rannu gyda'r Pwyllgor nifer y prentisiaid heb swydd nad oedd darparwyr wedi gallu dod o hyd i leoliad newydd ar eu cyfer ac sydd naill ai wedi cael eu symud i raglenni cymorth cyflogaeth neu heb fod yn cael unrhyw hyfforddiant mwyach.

Ymateb: Derbyn

Pan fydd prentis yn colli ei swydd, rhaid i'r darparwr ymdrechu i ddod o hyd i swydd arall ar ei gyfer. Rydym yn cydnabod bod oedi'n bosib rhwng prentis yn colli ei swydd a'r darparwr yn dod o hyd i gyflogwr arall, yn enwedig yn y sefyllfa bresennol. Serch hynny, dylai ein darparwyr wneud eu gorau i darfu cyn lleied â phosib ar y prentis, a cheisio sicrhau bod nodau cymhwyster y prentis yn dal i gael eu cyflawni.

Byddem yn disgwyl i'r darparwr wneud y canlynol o leiaf i gefnogi prentis sy'n colli ei swydd:

- parhau i ddarparu cymaint â phosib o hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith
- cysylltu â chyflogwyr perthnasol eraill mae'r darparwr yn gweithio gyda nhw, i weld a oes unrhyw swyddi gwag addas eraill ar gael;
- cysylltu â darparwyr eraill i weld a oes unrhyw swyddi gwag addas eraill ar gael;
- cyfeirio'r prentis at Gyrfa Cymru i gael cyngor ar ei opsiynau posib; a
- cyfeirio'r prentis at y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau i weld a oes unrhyw swyddi gwag addas yn cael eu hysbysebu.

Gall y darparwr hefyd nodi camau eraill sy'n briodol i gefnogi prentis sy'n colli ei swydd, e.e. cyfleoedd Twf Swyddi Cymru, ond dylid canolbwyntio'n bennaf ar alluogi'r prentis i barhau â'r brentisiaeth.

Pan fydd prentisiaid sydd wedi colli eu swydd yn ceisio dod o hyd i swydd arall, gallant dderbyn Lwfans Hyfforddiant Eithriadol o £50 yr wythnos drwy eu darparwr yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r Lwfans ar waith am hyd at 13 wythnos ar hyn o bryd.

O ran nifer y prentisiaid sy'n colli eu swydd, bydd yr wybodaeth reoli a gyflwynir gan ddarparwyr yn cael ei chyhoeddi yn yr adran 'ystadegau ac ymchwil' ar wefan Llywodraeth Cymru (gweler argymhelliad 32). Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n cael cefnogaeth gan eu darparwr yn unol â'r pwyntiau uchod. Mae ffurflenni ffurfiol am brentisiaid nad oedd modd i'w darparwr sicrhau lleoliad gwaith newydd ar eu cyfer, yn cael eu darparu drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o gyhoeddi data dros dro LLWR, fel rhan o'r wybodaeth reoli arfaethedig. Bydd data terfynol LLWR yn cael eu cyhoeddi fel rhan o ystadegau swyddogol y sector dysgu seiliedig ar waith ym mis Chwefror 2021.

Argymhelliad 34. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am fanylion ariannol y trefniant cyllido newydd ar gyfer darparwyr hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys faint y bydd darparwyr nawr yn ei dderbyn o gymharu â'r hyn y byddent wedi disgwyl ei dderbyn fel rheol.

Ymateb: Derbyn

Yn ystod mis Mawrth, caeodd darparwyr eu canolfannau dysgu ar gyfer gwaith wyneb yn wyneb am gyfnod amhenodol oherwydd Covid-19. Yn sgil y cam hwn, nid oedd modd dysgu yn yr ystafell ddosbarth na dysgu drwy weithdai; hefyd, gan fod llawer o gyflogwyr wedi cau, roedd nifer sylweddol o ddysgwyr nad oeddent wedi colli eu swydd yn gweithio gartref neu ar ffyrlo, ac felly nid oedd modd i ddarparwyr gynnal asesiadau wyneb yn wyneb. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn ceisio gohirio'r broses o recriwtio prentisiaid dros y cyfnod hwn.

Mae darparwyr yn cael eu talu am weithgarwch. Yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU, teimlwyd y byddai parhau i dalu darparwyr ar sail llawer llai o weithgarwch yn arwain at ansefydlogrwydd ariannol i ddarparwyr. Byddai hyn yn effeithio ar allu'r rhwydwaith i gefnogi dysgwyr presennol yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud, ac wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Yn sgil hynny, gwnaethpwyd penderfyniad i symud – dros dro – oddi wrth system gyllido sy'n seiliedig ar y gwaith sy'n cael ei gyflawni, a'i disodli â system o daliadau cyfartalog sy'n seiliedig ar y gwaith sydd wedi'i gyflawni a gofnodwyd yn ystod y cyfnod o wyth mis rhwng mis Awst 2019 a mis Mawrth 2020 (gan mai dyma oedd yn cael ei ystyried fel y dangosydd gorau o'r gwaith y byddai'r darparwr wedi'i gyflawni yn ystod gweddill y flwyddyn). Gwnaed y taliad cyfartalog cyntaf ym mis Mai yn lle gweithgarwch mis Ebrill.

Mae gwerthoedd contract blynyddol yn cael eu dyfarnu i ddarparwyr ar gyfer y rhaglenni Prentisiaeth a Hyfforddeiaeth. Mae'r gyfran o werth contractau a gaiff pob darparwr am weithgarwch yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan fod blaenoriaethau prentisiaethau yn newid (fel y nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol) a'r galw yn newid. Felly, mae'n amhosibl pennu'n gywir faint o gyllid y byddai darparwr wedi'i gael pe na bai pandemig Covid-19 wedi digwydd.

Fodd bynnag, mae'n bosib *amcangyfrif* faint o gyllid y gallai darparwr fod wedi'i gael (mewn sefyllfa arferol) ar sail pa gyfran o werth eu contract Prentisiaeth a Hyfforddeiaeth mae'r darparwr wedi'i defnyddio yn y gorffennol. Fodd bynnag, rhaid ystyried hyn fel amcangyfrif bras, gan nad yw'n adlewyrchu'r ffaith mai ychydig iawn o ddarparwyr oedd ar y trywydd iawn i gyflawni gwerth contract 2019/20 a glustnodwyd i gefnogi blaenoriaethau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Mae'r tablau isod yn dangos faint o gyllid y bydd pob darparwr yn ei gael mewn perthynas â'i contract Prentisiaeth a Hyfforddeiaeth 2019/20 (os yw'n berthnasol). Mae'r cyllid hwn yn cynnwys y taliadau am y gwaith a gafodd ei gyflawni rhwng mis Awst 2019 a mis Mawrth 2020, a'r taliadau cyfartalog rhwng mis Ebrill 2020 a mis Gorffennaf 2020. Mae'r ffigur hwn yn cael ei gymharu â'r *amcangyfrif* o'r cyllid y gallai darparwr fod wedi'i gael pe bai wedi cyflawni gwaith yn unol â'i berfformiad cyfartalog dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, fel y soniwyd uchod, hyd yn oed heb ymyrraeth Covid-19, mae'n debygol bod yr amcangyfrif o gyllid ar gyfer y rhaglen Prentisiaeth yn rhy uchel.

Amcangyfrif o Effaith Taliadau Cyfartalog ar incwm 2019/20 Darparwyr: Prentisiaethau

Darparwr*	Cyfanswm Incwm 2019/20 (gan gynnwys taliadau cyfartalog)	Yn seiliedig ar wariant blaenorol – Amcangyfrif o Incwm 2019/20
ACORN LEARNING SOLUTIONS LTD	6,345,674	6,573,879.82
ASSOCIATED COMMUNITY TRAINING LTD	13,813,912	14,289,564.95
BABCOCK TRAINING LIMITED	3,279,102	3,201,473.60
CAMBRIAN TRAINING COMPANY LTD	4,504,765	4,774,285.46
COLEG CAERDYDD A'R FRO	7,359,628	7,325,221.21
COLEG CAMBRIA	7,296,730	8,239,033.18
BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU	5,292,199	5,055,738.72
COLEG GŴYR ABERTAWE	6,237,113	6,936,998.70
GRŴP LLANDRILLO MENAI	9,024,845	9,490,985.23
ISA TRAINING LIMITED	1,661,112	1,615,601.88
ITEC TRAINING SOLUTIONS LTD	5,290,411	5,630,062.13
MARR CORPORATION LTD	4,056,727	4,013,164.90
COLEG CASTELL-NEDD PORT TALBOT (ACADEMI SGILIAU CYMRU)	9,897,059	10,153,754.23
COLEG SIR BENFRO	10,482,316	11,238,713.84
PEOPLEPLUS GROUP LTD	2,502,760	2,492,127.56
THE CAD CENTRE (UK) LTD	1,249,597	1,159,737.24
HYFFORDDIANT TORFAEN (RHAN O GYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN)	2,944,391	2,871,665.68
CYFANSWM	101,238,343	105,062,008

* Nid yw'n cynnwys Partneriaeth Sgiliau Galwedigaethol (VSP), gan fod gwerth contract y darparwr hwn wedi'i derfynu ar 31 Mai 2020

Amcangyfrif o Effaith Taliadau Cyfartalog ar incwm 2019/20 Darparwyr: Hyfforddeiaethau

Darparwr	Cyfanswm Incwm 2019/20 (gan gynnwys taliadau cyfartalog)	Amcangyfrif o Incwm 2019/20 (yn seiliedig ar variant blaenorol)
ASSOCIATED COMMUNITY TRAINING LTD	13,427,087	14,041,590
COLEG CAMBRIA	802,438	521,229
GRŴP LLANDRILLO MENAI	1,346,208	1,169,891
ITEC TRAINING SOLUTIONS LTD	3,994,918	3,829,598
COLEG CASTELL-NEDD PORT TALBOT (ACADEMI SGILIAU CYMRU)	2,036,656	1,864,764
COLEG SIR BENFRO	1,716,031	1,499,205
PEOPLEPLUS GROUP LTD	4,563,596	4,485,734
HYFFORDDIANT TORFAEN (RHAN O GYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN)	486,802	275,530
CYFANSWM	28,373,737	27,687,542



MA-LW-1453-20

Arweinwyr Awdurdodau Lleol

7 Mai 2020

Annwyl Gyfaill,

Mynegi Diddordeb mewn cyflwyno mesurau trafndiaeth leol gynaliadwy mewn ymateb i Covid-19

Ar hyn o bryd, rydym yn gweld newidiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen, ac mae'r newidiadau hynny'n cael effaith ar bob agwedd ar ein bywydau, gan effeithio'n benodol ar bob un o'r dulliau teithio. Ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu gosod, rydym wedi gweld gostyngiadau mawr mewn traffig modurol ar bob rhan o'r rhwydwaith ffyrdd, llawer llai yn defnyddio'r bysiau a'r trenau, lefelau uchel o weithio gartref a mwy o gerdded a beicio, ar gyfer teithiau hanfodol a hefyd ar gyfer ymarfer corff dyddiol. Er lles yr aer a anadlwn, er lles hinsawdd y byd ac er mwyn iechyd y cyhoedd, mae angen inni geisio cynnal y newid hwn i ffyrdd egniol o deithio a'r lleihad yn y defnydd o geir sydd i'w gweld ar hyn o bryd.

Byddwch wedi gweld enghreifftiau mewn trefi a dinasoedd ledled y byd, megis Milan, Berlin, Paris a Brwsel, a'r camau a gymerwyd ganddynt er mwyn cyrraedd y nod hwnnw. Rwy'n ysgrifennu at awdurdodau lleol ledled Cymru i ofyn ichi fynegi diddordeb mewn cyflwyno mesurau i sicrhau bod ffyrdd cynaliadwy o deithio yn rhai diogel a dibynadwy, yn awr yn ystod yr argyfwng Covid-19, ac ar ôl iddo ddod i ben. Ni ddylai rhain fod wedi'u cyfyngu i ardaloedd trefol mawr, gan fod yr un egwyddorion yn wir ar gyfer trefi llai ac ardaloedd gwledig. Rydym am weld mesurau creadigol, isel eu cost, a fydd yn cael effaith fawr ac y bydd modd eu cyflwyno'n gyflym yn ogystal â chynlluniau a fydd yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio. Gallant fod yn fesurau arbrol, a bydd modd newid ychydig arnynt os na fyddant yn gwbl briodol ar y dechrau. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, mae'n bwysig nad yw ymgyrraedd at berffeithrwydd yn golygu nad ydym yn cyflawni pethau da.

Mae dau brif reswm pam yr ydym yn awyddus ichi fynd ati o ddifrif i ystyried pa gamau y gellid eu cymryd yn eich ardaloedd er budd trafndiaeth gyhoeddus a ffyrdd cynaliadwy o deithio.

Yn gyntaf, rydym am warchod iechyd a diogelwch y cyhoedd. Disgwylir y bydd angen i bobl gadw pellter cymdeithasol am fisoedd lawer i ddod. Yn aml, mae'r lle sydd ar gael ar lwybrau troed a llwybrau cyd-ddefnyddio yn gwbl annigonol i bobl fedru cadw digon o bellter

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhyngddynt wrth fynd heibio i'w gilydd yn ddiogel, ac mae'r ciwiau y tu allan i siopau ac mewn safleoedd bysiau yn ychwanegu at y pwysau sydd ar y lle hwnnw. Yn aml, felly, mae'n rhaid i gerddwyr a beicwyr gamu i'r gerbyttfordd neu seiclo arni er mwyn osgoi bod yn rhy agos at bobl eraill wrth fynd heibio. Er bod hynny, ar y cyfan, yn bosibl ar hyn o bryd ar adeg pan fo llai o draffig, mae'n peri problemau eisoes i lawer o bobl. Er enghraifft, bydd yn beryglus iawn i bobl sydd ag anawsterau symud neu i blant ifanc pan fydd y traffig yn cynyddu unwaith eto.

Yn ail, rydym am fynd i'r afael â chynnydd posibl yn y defnydd o geir. Mae cryn ansicrwydd ynglŷn â pha mor barod fydd y cyhoedd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus unwaith y bydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio. Mae tystiolaeth eisoes o Tsieina sy'n dangos bod llawer llai yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a llawer mwy yn defnyddio'r car. Os na fyddwn yn gweithredu, mae cryn risg, felly, y byddwn yn gweld canran hyd yn oed yn uwch o deithiau'n cael eu gwneud yn y car yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n amlwg y byddai hynny'n groes i'r cyfeiriad polisi yr ydym yn awyddus i'w gyflwyno ar draws y Llywodraeth, ac yn arwain at effeithiau negyddol i bobl, i'r gymdeithas ac i'r amgylchedd. Mae angen inni, felly, fanteisio ar y gostyngiadau presennol er mwyn creu amodau a fydd yn golygu y bydd modd teithio mewn ffyrdd diogel a chyfleus heb ddefnyddio'r car.

Felly, mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, a minnau, yn gwahodd yr awdurdodau lleol i fynegi diddordeb cychwynnol mewn cael cyllid i gyflwyno mesurau 'yn ôl y gofyn' yn eich ardaloedd. Yn y lle cyntaf, fe fydd hyn yn cynnwys datrysiadau dros-dro na ydynt yn gostus i ail-ddyrannu lle ar y ffordd o blaid ffurfiau teithio cynaliadwy. Gall y mesurau hynny gynnwys mesurau a fydd yn rhai dros dro yn y lle cyntaf, megis y rhai a welir isod, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain:

- Lledu llwybrau troed, gan ddefnyddio lled y gerbyttfordd
- Cau ffyrdd, gan gyfyngu ar rai dulliau teithio (hidlo) er mwyn helpu beicwyr
- Cau lonydd, neu systemau unffordd â gwrthlif ar gyfer beicwyr
- Cael gwared ar fannau parcio am y tro neu gyfyngiadau dros dro ar barcio, gan gynnwys mannau llwytho
- Lonydd a thraciau beicio – gan ddefnyddio dulliau caled a meddal i gadw beicwyr a thraffig ar wahân
- Cael gwared ar annibendod o lwybrau troed, e.e. drwy gyfuno arwyddion; tynnu canllawiau.
- Cyfleusterau croesi newydd dros dro
- Lonydd bysiau, gatiau bysiau a ffyrdd at ddefnydd bysiau yn unig
- Cyfleusterau Parcio a Theithio sy'n defnyddio bysiau, yn ogystal â chyfleusterau Parcio a Rhannu a lonydd i bobl sy'n rhannu car (gyda golwg ar ganiatáu rhannu ceir pan fo mesurau ymbellhau cymdeithasol yn caniatáu hynny)
- Gwellu'r cyfleusterau aros mewn safleoedd a gorsafoedd bysiau allweddol, gan gynnwys camau i helpu pobl i gadw pellter cymdeithasol
- Systemau gwybodaeth amser real, gan gynnwys faint o bobl sydd ar y trenau a'r bysiau
- Seilwaith er mwyn cyflwyno gwell trefniadau glanhau ar dtrafnidiaeth gyhoeddus
- Gorfodi rheolau parcio, yn enwedig ar lwybrau teithio llesol
- Camau i arafu traffig
- Terfynau cyflymder o 20mya, gan dreialu'r fethodoleg eithriadau sy'n gysylltiedig â chyflwyno terfynau cyflymder safonol o 20mya

Wrth gyflwyno camau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio, dylid rhoi blaenoriaeth i lwybrau sy'n rhan o'r rhwydweithiau teithio llesol sydd gennych eisoes neu yr ydych yn

bwriadu eu cyflwyno yn y dyfodol, yn enwedig llwybrau i ysgolion. Rydym yn rhagweld mai pecyn a fydd yn cyfuno camau gwahanol sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol. Rydym yn disgwyl i lawer o'r camau fod yn rhai dros dro neu arbrofol yn y lle cyntaf, ond os byddant yn effeithiol, bydd disgwyl iddynt gael eu cyflwyno'n barhaol.

Mae templed ar gyfer mynegi diddordeb cychwynnol wedi'i atodi i'r llythyr hwn. Bydd angen ichi nodi'r costau a ragwelir ac anfon y templed yn ôl atom yn transportplanning@llyw.cymru erbyn 21 Mai 2020 er mwyn inni gael amcan o faint o gyllid y bydd ei angen. Nid ydym yn disgwyl cynigion manwl ar gyfer cynlluniau ar hyn o bryd ond bydd angen ichi esbonio'r mathau o ymyriadau sydd gennych mewn golwg. Byddwn yn gofyn wedyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl y gofyn er mwyn inni gael ystyried mwy ar y cynigion. Rydym yn anelu at gael cadarnhau'n gyflym a fydd cyllid ar gael, ac yn rhagweld y bydd y mesurau'n cael eu cyflwyno o ddechrau'r haf ymlaen.

Rwy'n sylweddoli eich bod yn dal i ddisgwyl clywed canlyniadau rhai o'r ceisiadau arferol am grantiau trafnidiaeth leol ar gyfer y flwyddyn 2020/21. Mae'r ymateb brys i Covid-19 wedi arwain at oedi yn hynny o beth ond byddwn yn rhoi gwybod ichi cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,



Lee Waters AC

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport